Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Talysarn

Y Ganolfan
Ffordd yr Orsaf
Talysarn
Caernarfon
LL54 6HL

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Talysarn

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Talysarn |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Delyth Jones |
| Person â gofal | Tracey Lee JonesNatalie Phillips |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Amrediad oedran y plant | 2 mlwydd oed i 4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 10 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 9 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Oriau agor yn ystod y tymor: Dydd Llun 11:00 - 15:15, Dydd Mawrth i Ddydd Iau 08:30 - 15:15, Dydd Gwener 08:30 - 14:30 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Arolygiad cyntaf ers ailgofrestru |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mehefin 2017 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 17/06/2025 |
| Cofrestriad cyntaf AGC Mehefin 2021 | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Digonol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Digonol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Digonol** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1. Sicrhau cyfleoedd cyson i'r ymarferwyr wella medrau ieithyddol a rhifedd y plant yn ystod eu chwarae

A2. Cryfhau rhyngweithiadau rhwng oedolion a phlant i gefnogi ac ymestyn dysgu plant yn fwy effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Digonol

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos diddordeb egnïol wrth archwilio'r ardaloedd chwarae tu fewn a thu allan ac yn cael hwyl yn dilyn eu trywyddau dysgu eu hunain. Maent yn mwynhau amser tawel wrth ddarllen llyfrau yn yr ardal gyfforddus. Mae mwyafrif y plant yn mynegi eu hunain yn briodol ac yn mwynhau siarad ag ymarferwyr am yr hyn maen nhw'n ei wneud gartref. Maent yn hyderus i wneud ceisiadau am eu hoff gân ac yn hapus pan fydd ymarferwyr yn ymuno yn y canu.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn hapus ac yn ymgartrefu’n briodol. Maent yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac yn setlo'n gyflym wrth gael eu cyfarch mewn ffordd gyfeillgar gan yr ymarferwyr. Maent yn barod iawn i ofyn am gymorth neu am gysur, pan fo’r angen yn codi. Mae’r rhan fwyaf o blant yn teimlo'n gyfforddus yng nghwmni ymarferwyr ac yn mwynhau cael sgwrs a gwrando ar storïau.

Mae mwyafrif y plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â’u ffrindiau a gyda’r ymarferwyr. Maent yn meithrin medrau cymdeithasol yn briodol wrth rannu deunyddiau a chymryd tro ar yr offer chwarae yn yr ardal allanol. Maent yn mwynhau sgwrsio ag eraill yn ystod amser byrbryd ac yn datblygu agweddau priodol tuag at ei gilydd. Er hyn, nid oes gan bob plentyn ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw eu hunain yn ddiogel ac nid ydynt bob amser yn ofalgar wrth chwarae ymhlith eu ffrindiau.

Mae mwyafrif y plant yn frwdfrydig am eu chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau bod yn ddychmygus yn y gornel gartref, gan ddefnyddio offer i greu golygfa goginio a pharatoi bwrdd ar gyfer cinio yn llwyddiannus. Mae’r rhan fwyaf o blant yn elwa o gyfleoedd addas i wneud penderfyniadau a dewisiadau am eu gweithgareddau. Maent wrth eu bodd yn archwilio yn y tywod a dŵr ac yn mwynhau ymarfer eu medrau cydbwyso wrth fynd ar feiciau a sgwteri.

Mae mwyafrif y plant yn datblygu medrau annibynnol da, maent yn dilyn eu diddordebau wrth chwarae ac yn canolbwyntio'n addas wrth iddynt archwilio'r adnoddau synhwyraidd. Er enghraifft, maent yn dangos chwilfrydedd iach wrth drochi eu dwylo mewn hambwrdd o ewyn eillio i farcio a gwneud siapiau. Mae mwyafrif y plant yn canolbwyntio am gyfnodau priodol ac yn archwilio teganau anifeiliaid gyda diddordeb naturiol. Maent yn datblygu dealltwriaeth gynnar o bwysigrwydd ailgylchu ac yn taflu gwastraff bwyd i’r bocsys priodol ar ôl byrbryd ac yn ymarfer golchi eu plât yn fedrus.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):  Da

Yn gyffredinol, mae mwyafrif y plant yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn yn y lleoliad. Maent yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn mwynhau edrych ar luniau gan drafod yn syml beth maent yn ei weld. Mae'r mwyafrif yn datblygu medrau darllen cynnar addas wrth droi tudalennau yn gywir i ddilyn y stori. Gan ystyried bod y rhan fwyaf o blant yn newydd i'r Gymraeg ar fynediad i'r lleoliad, mae'r mwyafrif yn ymateb i gyfarwyddiadau cyfarwydd yn briodol. Mae ychydig yn dechrau cynnwys ambell air cyfarwydd yn eu brawddegau wrth sgwrsio yn ystod eu chwarae, er enghraifft wrth ddewis lliw paent i beintio. Er hyn, nid yw ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau ieithyddol y plant yn eu gweithgareddau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn arbrofi ag ystod o offer gwneud marciau yn effeithiol gan ddangos medrau modur mân addas, er enghraifft wrth greu patrymau troellog ar y wal sialc.

Mae lleiafrif y plant yn datblygu medrau rhifedd cynnar yn briodol. Maent yn dechrau cyfri gwrthrychau ac yn dechrau adnabod rhifau hyd at bump yn gymharol hyderus, er enghraifft wrth chwilio am rifau yn ystod helfa drysor tu allan. Fodd bynnag, prin mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio'u medrau rhifedd yn naturiol yn eu chwarae a'u dysgu. Gyda chymorth, maent yn defnyddio llechen ddigidol i dynnu llun.

Mae medrau creadigol  mwyafrif y plant yn datblygu'n effeithiol. Maent yn gwneud dewisiadau doeth am beth i'w ddefnyddio i greu eu gwaith, fel dewis lliw paent neu offer marcio yn yr ardal greadigol. Mae mwyafrif y plant yn mynegi eu hunain yn hyderus wrth chwarae rôl, er enghraifft wrth baratoi bwyd yn y gegin.

Mae llawer o blant yn datrys problemau yn effeithiol pan fyddant yn chwarae ac yn archwilio. Er enghraifft, maent yn dod i wybod sut i gael ewyn eillio allan o'r botel yn annibynnol i gymysgu gyda thywod er mwyn creu sment. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau corfforol cadarn gan chwarae ar feiciau a sgwteri o amgylch yr ardal allanol yn feistrolgar. Maent yn defnyddio amrywiaeth o offer bach yn hyderus, er enghraifft drwy agor a chau siswrn i dorri papur. Mae llawer o blant yn datblygu medrau personol a chymdeithasol da. Maent yn cymryd tro yn feddylgar wrth chwarae yn y tŷ bach twt ac yn cydweithio'n effeithiol wrth helpu ei gilydd i gario bwced o ddŵr o un ardal i'r llall.

## Gofal a datblygiad:  Digonol

Mae gan ymarferwyr ffordd gynnes a chyfeillgar o roi gofal. Maent yn canmol plant yn gyson am eu hymdrechion ac yn dathlu eu cyflawniadau.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth sylfaenol o'u rolau a'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol sy'n addas i

oedran y plant. Maent yn rhoi’r rhan fwyaf o’r polisïau a gweithdrefnau ar waith yn addas. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn dilyn y weithdrefn polisi newid clytiau yn unol â'r canllawiau rheoli heintiau cyfredol. Mae ymarferwyr yn atgoffa’r plant i olchi eu dwylo ac mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn annog plant i gymdeithasu yn ystod amseroedd bwyd ac yn eu hannog i fwyta'n iach gan sicrhau bod dŵr yfed ffres a llefrith ar gael yn hwylus. Maent yn cynnal ymarferion tân yn amserol ac mae’r rhain yn cael eu cofnodi. Mae ymarferwyr yn cofnodi eu horiau presenoldeb ac oriau presenoldeb y plant. Maent yn nodi damweiniau a digwyddiadau ac yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn llofnodi'r cofnod er mwyn dangos eu bod wedi cael eu hysbysu. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o'r gweithdrefnau diogelu. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn ymateb yn sensitif i blant ac mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o'u hanghenion unigol. Mae ymarferwyr yn cynnig gofal perthnasol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn derbyn gwybodaeth a chyngor partneriaethau proffesiynol. Maent wedi cydweithio’n dda ag arweinydd o’r awdurdod lleol i greu camau gweithredu pwrpasol sy’n bodloni angenion datblygiad penodol plant. Mae’r cynlluniau unigol hyn yn gymharol newydd ac nid yw ymarferwyr wedi cael digon o amser i’w hymgorffori’n llawn. Mae ymarferwyr yn ymwybodol o feysydd o’u harferion sydd angen gwella er mwyn cefnogi datblygiad plant ag anghenion dysgu penodol yn effeithiol ac wedi cymryd camau priodol i fodloni hyn.

Mae ymarferwyr yn trefnu profiadau chwarae a dysgu addas i'r plant. Maent yn ymateb yn briodol i wahoddiad plant i chwarae ac yn dangos mwynhad wrth ymuno yn eu gweithgareddau. Er hyn, nid ydynt yn manteisio’n ddigon effeithiol ar y cyfleoedd hyn i ddatblygu elfenau allweddol o ddatblygiad plant fel mathemateg a llythrennedd. Mae ymarferwyr yn trefnu gweithgareddau celf a chrefft priodol ac yn cefnogi plant i ddatblygu eu medrau corfforol mân ymhellach, er enghraifft trwy roi arweiniad iddynt ar sut i osod eu bysedd a'u bawd i ddefnyddio siswrn yn ddiogel. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd priodol i'r plant ddysgu am y byd o'u cwmpas ac yn gwneud defnydd effeithiol a’r ardd natur i gefnogi eu lles.

### Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Digonol

Mae ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth briodol o sut mae plant yn dysgu trwy chwarae ac ymchwilio. Ar y cyfan, maent yn darparu ystod addas o brofiadau dysgu a chwarae sy’n ennyn diddordeb llawer o blant yn addas. Yn yr arfer orau, mae ymarferwyr yn cefnogi’r dysgu yn effeithiol wrth sicrhau cyfleoedd pwrpasol i blant ddewis eu trywyddau dysgu eu hunain. Er hyn, nid ydynt bob tro’n manteisio ar gyfleoedd buddiol i symud y dysgu ymlaen er mwyn datblygu medrau ieithyddol a rhifedd y plant yn effeithiol.

Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn paratoi ardaloedd dysgu a chwarae diddorol tu fewn a thu allan sy'n galluogi plant i wneud dewisiadau'n annibynnol. Er enghraifft, mae plant yn mwynhau arbrofi gyda dŵr gan ychwanegu ceir i deithio i lawr y biben a chwarae yn y tŷ bach twt. O ganlyniad, maent yn datblygu eu hannibyniaeth a'u gallu i ddyfalbarhau yn briodol.

Mae ymarferwyr yn fodelau iaith medrus. Maent yn annog plant i sgwrsio â'i gilydd ac yn hyrwyddo ffyrdd priodol iddynt fynegi eu hanghenion. Ar brydiau, mae ymarferwyr yn holi plant yn bwrpasol. Er hyn, nid ydynt bob amser yn rhyngweithio'n ddigon effeithiol er mwyn datblygu eu gallu i feddwl. Maent yn darparu cyfleoedd addas i blant drin a thrafod llyfrau'n annibynnol, ac yn cynnig cyfleoedd priodol iddynt greu marciau gyda gwahanol offer, fel brwshys paent, pensiliau, ewyn eillio a thywod. Mae hyn yn cael effaith gadarn ar eu medrau llythrennedd yn gyffredinol.

Mae ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd addas i blant ddatblygu eu medrau digidol gan gynnwys defnyddio llechen i dynnu llun digidol o'r hyn maent yn ei greu. Maent yn darparu adnoddau buddiol i blant ddatblygu eu medrau mathemategol cynnar, er enghraifft trwy ddarparu cyfleoedd iddynt archwilio cysyniadau fel llawn a gwag gan ddefnyddio amrywiaeth o offer yn y dŵr. Er hyn, nid yw'r ymarferwyr bob amser yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd naturiol i ddatblygu dealltwriaeth fathemategol y plant yn llawn.

Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd addas i ddatblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Er hyn, nid ydynt bob amser yn annog plant i ddysgu rhannu teganau a chymryd eu tro. Maent yn cynllunio cyfleoedd buddiol i blant ymweld â'r ardal leol yn achlysurol, sy'n meithrin ymdeimlad o berthyn ac yn datblygu eu hymwybyddiaeth o'r byd o'u cwmpas.

Mae ymarferwyr yn gwneud arsylwadau rheolaidd a defnyddiol o chwarae plant. Maent yn dechrau defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i werthuso datblygiad y plant ac yn magu hyder i weithredu ar y wybodaeth i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. Maent yn dechrau addasu'r ddarpariaeth i fodloni anghenion unigol plant. Mae ymarferwyr yn rhannu'r wybodaeth hon gyda rhieni a gofalwyr trwy adroddiadau ysgrifenedig rheolaidd a diweddariadau dyddiol defnyddiol. Mae hyn yn sicrhau bod rhieni'n cael gwybod yn gyson am gynnydd eu plentyn.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr wedi creu amgylchedd croesawgar a chyfeillgar. Maent wedi sicrhau bod gosodiad yr ardaloedd chwarae tu fewn a thu allan yn hyrwyddo annibyniaeth y plant drwy eu galluogi i symud o gwmpas yn rhydd gan eu hybu i wneud dewisiadau i ddilyn eu diddordebau eu hunain.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod mesurau diogelwch effeithiol ar waith i reoli mynediad i mewn ac allan o’r lleoliad. Mae drysau wedi'u cloi ac mae cofnod o ymwelwyr yn cael ei gadw. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn cynnal gwiriadau iechyd a diogelwch dyddiol cyn i blant gyrraedd. Maent yn cwblhau asesiadau risg ac yn amlinellu’r camau i’w cymryd i leihau ac atal risgiau i blant. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn cael ei lanhau'n rheolaidd ac maent yn dilyn canllawiau cyfredol ar gyfer rheoli heintiau yn effeithiol.

Mae ystod eang o deganau ac adnoddau ar gael ac mae’r arweinwyr yn sicrhau bod gan blant fynediad at ddodrefn o faint priodol. Mae’r arweinwyr yn trefnu ardaloedd dysgu a chwarae hyfryd ac mae dewis da o adnoddau naturiol ar gael i feithrin medrau ieithyddol, rhifedd a hunanymwybyddiaeth plant. Mae teganau ac adnoddau wedi eu gosod yn gyfleus o fewn cyrraedd y plant sy’n eu helpu i wneud dewisiadau am yr hyn maent eisiau chwarae ag ef. Mae yna ardal addas i blant storio eu heitemau personol ac mae hyn yn creu ymdeimlad da o berthyn. Mae adnoddau amlddiwylliannol ar gael i godi ymwybyddiaeth plant o'u cymdeithas ehangach. Mae arweinwyr yn defnyddio deunyddiau wedi eu hailgylchu a’u hailddefnyddio yn effeithiol i addurno'r gornel gartref ac i helpu i ddatblygu dychymyg plant trwy chwarae rôl. Maent yn sicrhau bod gwaith celf y plant yn cael ei arddangos yn ddeniadol, ac mae hyn yn creu ymdeimlad o falchder yn eu plith. Mae arweinwyr yn paratoi ardaloedd darllen y tu fewn a thu allan sy’n denu’r plant i ddewis llyfrau yn ddigymell. Mae hyn yn annog hoffter plant tuag at  lyfrau.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ardal chwarae tu allan yn drefnus ac yn cynnwys amrywiaeth o offer, adnoddau a chyfarpar i feithrin medrau corfforol, creadigol a dychmygol  plant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd i ddysgu am y byd naturiol. Maent wedi trefnu ardaloedd iddynt blannu a thyfu blodau a bwydo adar er mwyn iddynt ddysgu am y byd natur o’u cwmpas a meithrin eu medrau maethu. Mae’r arweinwyr yn trefnu cyfleoedd i blant chwarae yng ngardd y cylch sy’n rhoi amrywiaeth o brofiadau da i blant mewn amgylchedd naturiol i wella eu lles.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da

Mae arweinwyr yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi'r ymarferwyr yn dda, gan sicrhau ethos tîm cryf lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn creu diwylliant cyfeillgar a gofalgar yn y lleoliad sy'n golygu bod y plant yn mwynhau mynd yno.

Gyda’i gilydd, mae’r datganiad o ddiben a gweledigaeth addas yr arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn cydweithio’n effeithiol. Mae arweinwyr wedi rhoi ystod o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i gynorthwyo ymarferwyr i gefnogi gofal a datblygiad y plant yn briodol. Mae arweinwyr wedi datblygu prosesau recriwtio ac ymsefydlu pwrpasol ac mae digon o ymarferwyr sy’n meddu ar gymwysterau a phrofiad priodol yn y lleoliad.

Ceir cyfleoedd cyson ar gyfer dysgu proffesiynol yr ymarferwyr. Cynhelir cyfarfodydd wythnosol buddiol sy'n arwain at gael hyfforddiant i gefnogi arferion yr ymarferwyr. Er enghraifft, maent wedi cael hyfforddiant addas ar sut i gasglu tystiolaeth am gyflawniadau'r plant gan ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cydweithio'n agos â swyddogion yr awdurdod lleol a mudiadau eraill i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Mae ymweliadau rheolaidd gan asiantaethau eraill fel yr ymwelydd iechyd a chynghorwyr ADY yr awdurdod lleol yn cefnogi gwaith arweinwyr ac ymarferwyr yn dda.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod addas o drefniadau hunanwerthuso a sicrhau gwelliant. Mae trefniadau priodol ar waith i werthuso perfformiad yr ymarferwyr yn flynyddol, ac mae arweinwyr yn goruchwylio a gwerthuso gwaith yr ymarferwyr yn rheolaidd. Mae arweinwyr yn defnyddio'r gyllideb a grantiau yn synhwyrol, gan gynnwys grant datblygu disgyblion y blynyddoedd cynnar, i flaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r lleoliad. Er enghraifft, i brynu sied i'r ardal allanol sy'n hwyluso annibyniaeth y plant wrth ddewis beiciau yn eu chwarae.

Mae arweinwyr yn trefnu cyfleoedd buddiol i fynd ar deithiau o amgylch y pentref ac yn gwahodd ymwelwyr i siarad â'r plant. Er enghraifft, mae sesiynau stori gan ymwelydd o'r awdurdod yn annog brwdfrydedd plant at lyfrau ac mae cymeriad lleol yn gefnogi dealltwriath y plant o sut i groesi'r ffordd yn ddiogel. Mae hyn yn datblygu ymdeimlad y plant o berthyn i'r gymuned yn effeithiol.

Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr berthynas agos â rhieni a gofalwyr. Maent yn rhannu gwybodaeth am les a datblygiad cyffredinol eu plant yn rheolaidd trwy sgyrsiau cyson ac ap digidol. Mae arweinwyr yn hysbysu rhieni o'r gweithgareddau y bwriedir eu cyflawni gyda'u plant ar ddechrau bob tymor yn effeithiol. O ganlyniad, mae gan rieni ddealltwriaeth o sut i gefnogi eu plant adref. Mae hyn yn cryfhau'r berthynas rhwng y lleoliad a'r cartref ac yn sicrhau bod gan rieni a gofalwyr wybodaeth gyfoes am les a diddordebau eu plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/08/2025